

**CYNGOR CYMUNED  
LLANFAIR DYFFRYN CLWYD  
COMMUNITY COUNCIL**

**RHEOLAU SEFYDLOG**

**1. CYFARFODYDD**

- 1.1. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor **mewn lleoliadau addas, hygyrch, yn ardal y Cyngor Cymuned** am 19:00 oni bai bod y Cyngor yn penderfynu fel arall mewn cyfarfod blaenorol.
- 1.2. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol Statudol (a) mewn blwyddyn etholiad, ar y pedwerdydd diwrnod yn dilyn dyddiad yr etholiad neu cyn pen 14 diwrnod wedi hynny a (b) mewn blwyddyn nad yw'n flwyddyn etholiad, ar yr **ail ddydd Llun** ym mis Mai.
- 1.3. Cynhelir isafswm o bum cyfarfod ychwanegol ar **yr ail ddydd Llun ar gael** yn y mis.
- 1.4. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol trwy awdurdod y Cadeirydd.
- 1.5. Rhaid rhoi o leiaf bum diwrnod gwaith o hysbysiad ysgrifenedig am unrhyw gyfarfod y Cyngor Cymuned yn nodi lleoliad ac amser y cyfarfod.
- 1.6. Ni chaniateir ysmegu yn unrhyw gyfarfod y Cyngor Cymuned.

**2. CADEIRYDD Y CYFARFOD**

- 2.1. Caiff yr unigolyn sy'n cadeirio cyfarfod weithredu holl bwerau a dyletswyddau'r Cadeirydd yng nghyswllt cynnal y cyfarfod.
- 2.2. Y Cadeirydd fydd yn cadeirio cyfarfod y Cyngor Cymuned.
- 2.3. Os yw'r Cadeirydd yn absennol bydd yr Is-gadeirydd yn cadeirio.
- 2.4. Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd penodir aelod i gadeirio'r cyfarfod.
- 2.5. Caiff yr unigolyn sy'n cadeirio cyfarfod weithredu holl bwerau a dyletswyddau Cadeirydd y Cyngor Cymuned yng nghyswllt cynnal y cyfarfod.

**3. SWYDDOG PRIODOL**

- 3.1. Lle bo statud, rheol neu orchymyn yn rhoi swyddogaethau neu ddyletswyddau i swyddog priodol y Cyngor, yn yr achosion isod, y Clerc fydd y swyddog priodol:-
  - 3.1.1. Derbyn ffurflenni datgan derbyn y swydd.
  - 3.1.2. Derbyn a chofnodi hysbysiadau'n datgelu buddiannau ariannol.
  - 3.1.3. Derbyn a chadw cynlluniau a dogfennau.
  - 3.1.4. Llofnodi hysbysiadau a dogfennau eraill ar ran y Cyngor.
  - 3.1.5. Derbyn copïau is-ddeddfau a wnaed gan y Cyngor Sir.
  - 3.1.6. Ardystio copïau is-ddeddfau a wnaed gan y Cyngor Cymuned.
  - 3.1.7. Llofnodi gwysiau i fynychu cyfarfodydd y Cyngor.
- 3.2. Yn unrhyw achos arall y swyddog priodol fydd yr unigolyn a enwebir gan y Cyngor Cymuned, ac os nad oes enwebiadau, y Clerc.

**4. CWORWM**

- 4.1. Bydd tri aelod yn cynrychioli cworwm.
- 4.2. Os nad oes cworwm yn bresennol pan fo'r Cyngor yn cyfarfod, neu os yw nifer y Cynghorwyr sy'n bresennol a heb eu heithrio oherwydd datgan budd ariannol yn mynd yn is na'r cworwm, bydd y busnes nas cyflawnwyd yn y cyfarfod hwnnw'n cael ei gyflawni yn y cyfarfod nesaf neu ar ddyddiad a bennir gan y Cadeirydd.

**5. PLEIDLEISIO**

- 5.1. Bydd holl weithredoedd y Cyngor Cymuned, a'r holl gwestiynau sy'n dod gerbron neu'n deillio o gyfarfodyd y Cyngor yn cael eu penderfynu gan fwyafrif yr aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio ar hynny. Bydd aelodau'n pleidleisio trwy ddangos dwylo neu, os yw o leiaf dau aelod yn gwneud cais i'r perwyl hynny, trwy bleidlais bapur.
- 5.2. Os yw aelod yn gofyn, bydd y Clerc yn cofnodi enwau'r aelodau sy'n pleidleisio ar unrhyw gwestiwn i ddangos a wnaethant bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnig.
  - 5.2.1. Yn ddarostyngedig i (5.2.2) a (5.2.3) isod caiff y Cadeirydd fwrw pleidlais wreiddiol ar unrhyw fater sy'n mynd i bleidlais, ac yn achos nifer y pleidleisiau'n gyfartal, caiff roi pleidlais fwrw er ei fod wedi bwrw pleidlais wreiddiol.
  - 5.2.2. Pe bai'r unigolyn sy'n cadeirio yn y Cyfarfod Blynyddol wedi peidio â bod yn aelod o'r cyngor ac eithrio'r darpariaethau statudol sy'n cadw aelodaeth y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd tan ddiwedd eu cyfnod yn y swydd, ni chaiff ef/hi fwrw pleidlais wreiddiol wrth ethol Cadeirydd.
  - 5.2.3. Rhaid i'r unigolyn sy'n cadeirio roi pleidlais fwrw pryd bynnag y bo nifer cyfartal o bleidleisiau wrth ethol Cadeirydd.

## 6. TREFN Y BUSNES

*(Yn ystod blwyddyn etholiad dylai cyngorwyr lofnodi ffurflenni Datgan Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb ei gilydd, neu ym mhresenoldeb swyddog priodol a awdurdodwyd yn flaenorol gan y Cyngor, i dderbyn datganiadau o'r fath cyn i'r cyfarfod blynyddol ddechrau.)*

- 6.1. Ym mhob Cyfarfod Blynyddol yr eitemau busnes cyntaf fydd:
  - 6.1.1. Derbyn adroddiad y Cadeirydd sy'n ymddeol.
  - 6.1.2. Ethol Cadeirydd.
  - 6.1.3. Derbyn Datganiad Derbyn y Swydd y Cadeirydd neu, os na'i derbyniwyd, penderfynu pryd y'i derbynnir.
  - 6.1.4. Penderfynu pryd y bydd unrhyw ffurflenni datganiad derbyn y swydd, na dderbyniwyd yn unol â darpariaethau'r gyfraith, i'w derbyn.
  - 6.1.5. Ethol Is-gadeirydd.
  - 6.1.6. Penodi cynrychiolwyr ar gyrff allanol.  
Ac wedi hynny ddilyn y drefn a nodir yn Rheol Sefydlog 6.4.
- 6.2. Ym mhob cyfarfod ac eithrio'r Cyfarfod Blynyddol y busnes cyntaf fydd penodi Cadeirydd os yw Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor Cymuned yn absennol.
- 6.3. Yn y cyfarfod cyntaf yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol bydd y Cyngor yn adolygu tâl ac amodau gwasanaeth y cyflogeion a gyflogir (*Gweler Rheol Sefydlog 11 isod.*)
- 6.4. Ar ôl ystyried y busnes cyntaf, trefn y busnes, oni bai bod y Cyngor yn penderfynu fel arall ar sail bod eitem yn eitem frys, fydd:-
  - 6.4.1. Darllen ac ystyried y cofnodion; cyn belled ag y bo copi wedi'i ddsbarthu i bob aelod dim hwyrach na diwrnod cyhoeddi'r gwys i fod yn bresennol yn y cyfarfod, gellir cymryd y cofnodion fel wedi'u darllen.
  - 6.4.2. Ar ôl ystyried y cofnodion, cymeradwyo llofnodi'r cofnodion gan yr unigolyn sy'n cadeirio fel cofnodion cywir.
  - 6.4.3. Ymdrin â'r busnes y mae'n ofynnol yn benodol trwy statud i'w gyflawni.
  - 6.4.4. Ymdrin ag unrhyw eitemau busnes, os o gwbl, yn weddill ers y cyfarfod diwethaf.
  - 6.4.5. Derbyn cyfathrebiadau fel y dymuna'r unigolyn sy'n cadeirio eu cyflwyno gerbron y Cyngor.
  - 6.4.6. Ystyried cwestiynau dan y pennawd materion yn codi.

- 6.4.7. Derbyn ac ystyried adroddiadau a chofnodion y pwyllgor.
- 6.4.8. Derbyn ac ystyried adroddiadau gan swyddogion y Cyngor.
- 6.4.9. Awdurdodi llofnodi archebion i'w talu.
- 6.4.10. Ystyried penderfyniadau neu argymhellion yn y drefn y cawsant eu hysbysu.
- 6.4.11. Unrhyw fusnes arall a nodir yn y gwŷs.  
Gellir cyflwyno cynnig i amrywio trefn y busnes ar sail brys
- 6.4.12. Gan y Cadeirydd neu gan unrhyw aelod ac, os yw'n cael ei gynnig gan y Cadeirydd, gellir ei roi i'r bleidlais heb gael ei eilio, a
- 6.4.13. Bydd yn mynd i'r bleidlais heb drafodaeth.

## **7. PENDERFYNIADAU HEB HYSBYSIAD**

- 7.1. Gall penderfyniadau'n ymdrin â'r materion a ganlyn cael eu cynnig heb hysbysiad:-
  - 7.1.1. Penodi Cadeirydd y cyfarfod.
  - 7.1.2. Cywiro'r Cofnodion.
  - 7.1.3. Cymeradwyo'r Cofnodion.
  - 7.1.4. Addasu trefn y busnes.
  - 7.1.5. Bwrw ymlaen i'r busnes nesaf.
  - 7.1.6. Terfynu neu ohirio trafodaeth.
  - 7.1.7. Cyfeirio'r mater at bwyllgor.
  - 7.1.8. Penodi pwyllgor neu unrhyw aelodau ohono.
  - 7.1.9. Mabwysiadu adroddiad.
  - 7.1.10. Diwygio penderfyniad.
  - 7.1.11. Rhoi caniatâd i dynnu penderfyniad neu ddiwygiad yn ôl.
  - 7.1.12. Gwahardd y cyhoedd.  
*(Gweler Rheol Sefydlog 22.1 isod.)*
  - 7.1.13. Tawelu neu droi aelod a enwyd o'r cyfarfod am gamymddwyn.  
*(Gweler Rheol Sefydlog 9 isod.)*
  - 7.1.14. Gwahodd aelod â budd yn y mater sy'n cael ei drafod i aros yn y cyfarfod.  
*(Gweler Rheol Sefydlog 18.1 isod.)*
  - 7.1.15. Rhoi caniatâd y Cyngor lle bo caniatâd o'r fath yn ofynnol dan y Rheolau Sefydlog hyn.
  - 7.1.16. Atal unrhyw Reol Sefydlog.  
*(Gweler Rheol Sefydlog 26.2 isod.)*

## **8. CYWIRIADAU I'R COFNODION**

- 8.1. Ni chynhelir unrhyw drafodaeth am y Cofnodion ac eithrio eu cywirdeb. Bydd cywiriadau i'r Cofnodion yn cael eu gwneud trwy benderfyniad, a rhaid i'r Cadeirydd eu llofnodi gyda'i flaenlythrennau.

## **9. YMDDYGIAD AFREOLUS**

- 9.1. Ni chaiff unrhyw aelod anwybyddu cyfarwyddiadau'r Cadeirydd yn gyson, rhwystro'r busnes yn fwriadol nac ymddwyn yn afreolus, tramgwyddus, amhriodol neu yn y fath fodd i godi cywilydd ar y Cyngor neu ei ddwyn i ddirmyg neu ei wneud yn destun gwawd.
- 9.2. Os yw aelod wedi mynd yn groes i'r darpariaethau yn eitem (9.1) y Rheolau hyn ym marn y Cadeirydd, bydd y Cadeirydd yn mynegi'r farn honno i'r Cyngor ac wedi hynny gall unrhyw aelod gynnig na ddylid clywed yr aelod a enwyd mwyach neu bod yr aelod a enwyd yn gadael y cyfarfod a bydd y cynnig, os caiff ei eilio, yn cael ei gynnig ar unwaith a heb drafodaeth.

- 9.3. Os na ufuddheir gyda'r naill neu'r llall o'r cynigion a grybwyllir yn eitem (9.2), gall y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod neu gymryd camau pellach fel y bo'n rhesymol angenrheidiol i'w gorfodi.

## **10 PLEIDLEISIO AR BENODIADAU**

- 10.1 Lle bo mwy na dau unigolyn wedi'u henwebu ar gyfer unrhyw rôl i'w llenwi gan y Cyngor, ac nad oes mwyafrif clir o blith y pleidleisiau o blaid un unigolyn, bydd enw'r unigolyn â'r nifer lleiaf o bleidleisiau'n cael eu groesi oddi ar y rhestr a chynhelir pleidlais o'r newydd, ac yn y blaen nes y rhoir mwyafrif y pleidleisiau o blaid un unigolyn.

## **11. TRAFODAETHAU A PHENDERFYNIADAU SY'N EFFEITHIO AR GYFLOGEION Y CYNGOR**

- 11.1 Os cyfyd cwestiwn mewn cyfarfod ynghylch penodiad, ymddygiad, dyrchafiad, diswyddo, cyflog neu amodau gwasanaeth unrhyw unigolyn a gyflogir gan y Cyngor, ni fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor neu bwyllgor (fel bo'r achos) nes y bo wedi penderfynu p'un ai y dylid gwahardd y cyhoedd ai peidio. (*Gweler Rheol Sefydlog 22.1.*)

## **12. GWARIANT**

- 12.1. [Bydd archebion i dalu arian yn cael eu hawdurdodi gan benderfyniad y Cyngor a'u llofnodi gan DRI aelod, neu fel arall gan DDAU aelod yn ogystal â'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Llofnodwyr y sieciau i roi eu blaenlythrennau ar fonyn y sieciau.](#)

## **13. PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU**

- 13.1. Gall y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol benodi pwyllgorau sefydlog, ac ar unrhyw adeg arall unrhyw bwyllgorau eraill fel bo angen, ond yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth statudol o ran hynny:-
- 13.1.1. Ni fydd yn penodi unrhyw aelod pwyllgor i fod mewn swydd yn hwyrach na'r Cyfarfod Blynyddol, a
- 13.1.2. Gall ddiddymu neu addasu aelodaeth y pwyllgor ar unrhyw adeg.
- 13.2. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn aelodau o bob pwyllgor.
- 13.3. Bydd pob pwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf, cyn bwrw ymlaen i unrhyw fusnes arall, yn ethol Cadeirydd a gall ethol Is-gadeirydd hefyd a fydd yn y swydd tan Gyfarfod Blynyddol nesaf y Cyngor, a bydd yn penderfynu ar ei raglen cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn.
- 13.4. Gall Cadeirydd pwyllgor neu Gadeirydd y Cyngor alw cyfarfod ychwanegol y pwyllgor hwnnw ar unrhyw adeg. Gellir gwysio cyfarfod ychwanegol ar gais ysgrifenedig dim llai na chwarter aelodau'r pwyllgor. Bydd y gwys yn nodi'r busnes i'w ystyried yn y cyfarfod arbennig ac ni chynhelir unrhyw fusnes arall yn y cyfarfod hwnnw.
- 13.5. Gall bob pwyllgor benodi is-bwyllgorau at ddibenion i'w nodi gan y pwyllgor.
- 13.6. Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor yn aelodau o bob is-bwyllgor a benodir, os nad ydynt yn nodi nad ydynt yn dymuno gwasanaethu ar yr is-bwyllgor.
- 13.7. Ac eithrio lle y gorchmynir gan y Cyngor yn achos pwyllgor, neu gan y Cyngor neu gan y pwyllgor priodol yn achos is-bwyllgor, cworwm pwyllgor neu is-bwyllgor fydd hanner ei aelodau.

## **14. PLEIDLEISIO MEWN PWYLLGORAU**

- 14.1. Bydd aelodau pwyllgorau ac is-bwyllgorau yn pleidleisio trwy ddangos dwylo neu, os yw o leiaf dau aelod yn gwneud cais i'r perwyl hynny, trwy bleidlais ysgrifenedig.
- 14.2. Bydd gan gadeirydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau, yn achos nifer cyfartal o bleidleisiau, ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

## **15. PRESENOLDEB UNIGOLION NAD YDYNT YN AELODAU PWYLLGOR MEWN CYFARFODYDD PWYLLGOR**

- 15.1. Caiff unrhyw aelod sydd wedi cyflwyno cynnig, a gyfeiriwyd i unrhyw bwyllgor nad yw ef/hi'n aelod ohono, esbonio ei gynnig i'r pwyllgor ond ni fydd yn pleidleisio.

## **16. CYFRIFON A DATGANIAD ARIANNOL**

- 16.1. Fel y nodir yn y Rheoliadau Ariannol neu:-
  - 16.1.1. Ac eithrio fel y darparwyd yn eitem (16.1.2) y Rheol Sefydlog hon neu drwy statud, bydd yr holl gyfrifon i'w talu a hawliadau gan y Cyngor yn cael eu cyflwyno gerbron y Cyngor.
  - 16.1.2. Lle bo'n angenrheidiol gwneud taliad cyn iddo gael ei awdurdodi gan y Cyngor bydd taliad o'r fath yn cael ei ardystio o ran ei gywirdeb a'r brys gan y swyddog priodol. Bydd taliad o'r fath yn cael ei awdurdodi gan y pwyllgor, os oes un, sy'n gofalu am y busnes mae'n berthnasol iddo, neu gan Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Cyngor.
  - 16.1.3 Bydd yr holl daliadau a gadarnheir dan eitem (16.1.2) y Rheol Sefydlog hon yn cael eu cynnwys ar wahân yn y rhestr taliadau nesaf a gyflwynir gerbron y Cyngor.
- 16.2 Bydd y Clerc yn cyflwyno i bob aelod yn y Cyfarfod Blynyddol ar ôl diwedd y Flwyddyn Ariannol ddatganiad yr holl dderbynebaw a thaliadau.
- 16.3 Bydd y Clerc yn ychwanegu at agenda cyfarfod mis Mai eitemau sy'n ymwneud â'r Asesiad Risg Blynyddol, Asesiad Risg Ariannol, Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog.

## **AMCANGYFRIFON**

- 16.4 Bydd y Cyngor yn cymeradwyo amcangyfrifon ysgrifenedig ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

## **17. BUDDIANNAU**

- 17.1. Os oes gan unrhyw aelod unrhyw fudd ariannol, uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn ystyr adran 94-95 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mewn unrhyw gontract, contract arfaethedig neu fater arall, bydd ef/hi, tra bo'r eitem yn cael ei ystyried gan y Cyngor, yn neilltuo o'r cyfarfod oni bai bod y budd yn fychan yn y modd y disgrifir yn adran 97(b) neu:-
  - 17.1.2 Bod yr anallu a roir arno ef/hi gan yr adrannau hynny wedi'i ddi-ddymu gan y Cyngor Sir; neu
  - 17.1.3 Bod y Cyngor yn ei wahodd i barhau yn y cyfarfod; neu
  - 17.1.4 Bod y contract, contract arfaethedig neu fater arall yn cael ei ystyried fel rhan o adroddiad pwyllgor ac nad yw'n destun y drafodaeth ei hun.
- 17.2 Bydd y Clerc yn cofnodi, mewn llyfr a gedwir at y diben hwnnw, fanylion am unrhyw hysbysiad a gyflwynwyd gan unrhyw aelod neu unrhyw swyddog y Cyngor am fudd ariannol mewn contract, a bydd y llyfr ar gael yn ystod oriau rhesymol y dydd i unrhyw aelod ei weld.

- 17.3 Os oes gan unrhyw aelod ddiddordeb nad yw'n un ariannol dan ystyr y Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol gall ef/hi gael ei wahodd i neilltuo o'r cyfarfod, ar ôl datgan y budd hwnnw.
- 17.4 Os yw ymgeisydd ar gyfer unrhyw benodiad gan y Cyngor yn ymwybodol ei fod yn perthyn i unrhyw aelod neu ddeiliad unrhyw swydd yn y Cyngor, dylai ef/hi a'r unigolyn y mae ef/hi'n perthyn iddo/iddi ddatgelu'r berthynas yn ysgrifenedig i'r Clerc. Bydd ymgeisydd nad yw'n gwneud hyn yn cael ei ddatgymhwyso ar gyfer penodiad o'r fath, ac, os yw'n cael ei benodi, gallai gael ei ddiswyddo heb gyfnod rhybudd. Lle datgelir perthynas ag aelod bydd Rheol Sefydlog 18.3 yn berthnasol. Bydd y Clerc yn hysbysu pob ymgeisydd am y Rheol Sefydlog hon.

## **18 CANFASIO AC ARGYMHELLION GAN AELODAU**

- 18.1 Bydd canfasio aelodau neu unrhyw bwyllgor, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ran unrhyw benodiad gan y Cyngor yn datgymhwyso'r ymgeisydd ar gyfer penodiad o'r fath. Bydd y Clerc yn hysbysu pob ymgeisydd am yr is-baragraff hwn.
- 18.2 Ni ddylai aelod o'r Cyngor geisio penodiad i unrhyw unigolyn gan y Cyngor neu argymhell unrhyw unigolyn ar gyfer penodiad o'r fath neu ddyrchafiad; ond, serch hynny, gall aelod roi tysteb ysgrifenedig i'w chyflwyno i'r Cyngor gyda'r cais am benodiad.
- 18.3 Bydd Rheolau Sefydlog rhifau 18.4, 19.1 a 19.2 yn berthnasol i dendrau fel petai'r unigolyn sy'n cyflwyno'r tendr yn ymgeisydd am benodiad.

## **19 ARCHWILIO DOGFENNAU**

- 19.1 Gall aelod, at ddibenion ei ddyletswydd (ond nid fel arall), archwilio unrhyw ddogfen ym meddiant y Cyngor neu bwyllgor, ac os oes copïau ar gael, gael copi at y diben hwnnw, ar gais i'r perwyl hynny.
- 19.2 Bydd yr holl Gofnodion a gedwir gan y Cyngor ac unrhyw bwyllgor ar gael i unrhyw aelod o'r Cyngor eu gweld.

## **20 GWEITHGAREDDAU DIAWDURDOD**

- 20.1 Ni chaiff unrhyw aelod o'r Cyngor nac unrhyw bwyllgor nac is-bwyllgor wneud yr isod yn enw neu ar ran y Cyngor:
- 20.2 Archwilio unrhyw diroedd neu eiddo y mae gan y Cyngor yr hawl neu ddyletswydd i'w archwilio;
- 20.3 Oni bai ei fod wedi'i awdurdodi i wneud hynny gan y Cyngor neu'r pwyllgor neu is-bwyllgor perthnasol.

## **21 MYNEDIAD I GYFARFODYDD I'R WASG A'R CYHOEDD**

- 21.1 Bydd mynediad i'r cyhoedd i holl gyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau a'i is-bwyllgorau, fodd bynnag, gallai'r cyfarfod wahardd y cyhoedd dros dro trwy gyfrwng y penderfyniad isod:  
"Yn sgîl natur [arbennig] [cyfrinachol] y busnes i'w drafod, cynghorir, er budd y cyhoedd, y dylid gwahardd y cyhoedd dros dro, a rhoir cyfarwyddiadau iddyn nhw neilltuo."

*(Nodiadau: Dylai'r rhesymau arbennig gael eu nodi. Mae Cylchlythyr 1/86 a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol Cyngorau Lleol (National Association of Local Councils – NALC) yn ymdrin â'r sefyllfaoedd lle mae'n debygol o fod yn ddymunol gwahardd y cyhoedd. Os oes angen cyngor neu gymorth unigolyn gellir eu gwahodd (trwy eu henw) i aros ar ôl pasio'r penderfyniad i wahardd y wasg.)*

- 21.2 Bydd y Clerc yn sicrhau bod cyfleusterau rhesymol ar gael i'r wasg i wneud eu nodiadau ar unrhyw drafodion lle bo ganddynt yr hawl i fod yn bresennol.
- 21.3 Os yw aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws trafodion unrhyw gyfarfod gall y Cadeirydd, ar ôl rhoi rhybudd, orchymyn ei fod ef/hi yn cael eu gwaredu o Siambr y Cyngor.
- 21.4 Neilltuir 20 munud ar gyfer derbyn datganiadau gan y cyhoedd, a chaiff unrhyw un aelod o'r cyhoedd dri munud i gyflwyno eu datganiad. Dim ond eitemau a dderbyniwyd gan y Clerc 48 awr cyn y cyfarfod fydd yn ddilys.

## **BUSNES CYFRINACHOL**

- 21.5 Ni fydd unrhyw aelod o'r Cyngor nac unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor yn datgelu i unrhyw unigolyn nad yw'n aelod o'r Cyngor unrhyw fusnes y nodwyd ei fod yn gyfrinachol gan y Cyngor, y pwyllgor neu'r is-bwyllgor fel bo'n berthnasol.
- 21.6 Bydd unrhyw aelod sy'n torri'r ddarpariaeth yn eitem (23.1) y Rheol Sefydlog hon yn cael eu diddymu o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor y Cyngor gan y Cyngor.

## **22 CYDGYSYLLTU Â CHYNGHORWYR AWDURDOD LLEOL**

- 22.1 Bydd hysbysiad cyfarfod ynghyd â gwahoddiad i fod yn bresennol yn cael ei anfon at y Cynghorydd/wyr Sir sy'n cynrychioli'r ward.

## **23 CEISIADAU CYNLLUNIO**

- 23.1 Bydd y Clerc, gynted ag y bo'n rhesymol, yn cyflwyno manylion pob cais cynllunio yr hysbyswyd y Cyngor amdano, yn cynnwys:
  - 23.1.2 Dyddiad derbyn manylion y cais
  - 23.1.3 Enw'r ymgeisydd
  - 23.1.4 Y lleoliad mae'r cais yn berthnasol iddo
  - 23.1.5 Crynodeb o natur y cais
- 23.2 Os derbynnir y cais rhwng cyfarfodydd, bydd y Clerc yn cyfeirio pob cais cynllunio at Gadeirydd y Cyngor ynghyd â dau aelod arall i gael eu sylwadau. Yn absenoldeb y Cadeirydd cyfeirir y cais at yr Is-gadeirydd a dau aelod. Yna bydd penderfyniad y tri aelod yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y Cyngor i gadarnhau'r sylwadau/gweithredoedd gan y tri ohonynt a'r Clerc.

## **24 RHEOLAU SEFYDLOG YNGHYLCH CONTRACTAU**

- 24.1 Lle y bwriedir ymrwymo i gontract gwerth dros £3,000 ond heb fod dros £10,000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith, bydd y Clerc yn rhoi o leiaf dair wythnos o hysbysiad cyhoeddus am fwriad o'r fath, yn yr un modd ag y cyhoeddir hysbysiad cyhoeddus cynnal cyfarfodydd y Cyngor. Lle bo gwerth y contract bwriedig dros £10,000, rhoir hysbysiad tebyg i'r holl gwmnïau a gynhwysir yn rhestr contractwyr cymeradwy sefydlog a gedwir gan y Cyngor Sir. Os na chedwir rhestr o'r fath, yna mewn papurau newyddion sy'n cwmpasu'r ardal yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyngor.
- 24.2. Bydd hysbysiad contract gwerth dros £10,000 yn nodi natur cyffredinol y contract bwriedig ac yn nodi enw a chyfeiriad yr unigolyn y dylid cyfeirio tendrau atynt a'r dyddiad cau ar gyfer anfon y tendrau hynny at yr unigolyn hwnnw yn y post arferol.
- 24.3 Agorir tendrau gan y Clerc, neu'r unigolyn yr oedd yn ofynnol cyfeirio'r tendrau ato/ati. Ar y dyddiad a nodwyd, yn unol ag eitem (26.2) y Gorchymyn hwn, cyflwynir adroddiad arnynt gan yr unigolyn a agorodd y tendrau i'r Cyngor neu, lle bo pwyllgor neu is-bwyllgor wedi gofyn am dendrau, i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.
- 24.4 Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor nac unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor dderbyn y tendr isaf.

- 24.5 Os na dderbynnir unrhyw dendrau neu os yw'r holl dendrau'n gyfartal gall y Cyngor wneud trefniadau ar gyfer caffael y nwyddau neu'r deunyddiau neu gyflawni'r gwaith fel y tybia sy'n briodol.
- 24.6 Bydd hysbysiad a gyhoeddir dan y Rheol Sefydlog hon yn nodi effaith Rheol Sefydlog 18.4, 19.1, 19.2 a 19.3.

## **25 COD YMDDYGIAD YNGHYLCH CWCYNION**

- 25.1 Bydd y Cyngor yn ymdrin â chwynion camweinyddu honedig gan y Cyngor neu gan unrhyw swyddog neu aelod o'r cyngor yn y modd a argymhellir yng Nghylchlythyr 2/86 a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol Cyngorau Lleol (NALC).

## **26 AMRYWIO, DILEU AC ATAL RHEOLAU SEFYDLOG**

- 26.1 Gall unrhyw neu bob rhan o'r Rheolau Sefydlog gael eu hatal trwy benderfyniad yng nghyswllt unrhyw eitem fusnes benodol.
- 26.2 Bydd penderfyniad i ychwanegu, amrywio neu ddiddymu Rheol Sefydlog yn barhaol, wedi'i gynnig a'i eilio, yn cael ei ohirio heb drafodaeth tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

## **27 RHEOLAU SEFYDLOG I'W RHOI I AELODAU**

- 27.1 Rhoir copi o'r Rheolau Sefydlog hyn i bob aelod gan y Clerc wedi iddo/iddi gyflwyno ei ffurflen datgan derbyn y swydd i'r Clerc.

Diwygiwyd a chymeradwywyd gan y Cyngor ar 31 Ionawr 2018 Cofnod 411.1  
[newid paragraffau 1.1, 1.2, 1.3]

Diwygiwyd a chymeradwywyd gan y Cyngor ar 14 Mehefin 2021 Cofnod 794.4  
[newid paragraff 6.5.3 ynghylch unrhyw fusnes arall wedi'i ddileu]